MEINI PRAWF CYMERADWYO AR GYFER TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

EBRILL 2018

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	2
Cynnwys y pwnc	3
Gwybodaeth a dealltwriaeth	3
Sgiliau	5
Amcanion asesu	5
Cynllun asesu	5

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o **dan Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol*[1]*: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] http://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Datblygwyd y rhain yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Maent yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manyleb a deunyddiau asesu'r cymhwyster.

Daw'r meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon i rym o fis Ebrill 2018.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant[2] i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres am gyfnod o bum mlynedd o 1 Medi 2019 er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn ohonynt sydd ar gael. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortiwm sy'n cynnwys City and Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres.

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn y *Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU*[3], yr *Amodau Cydnabod Safonol*[4] a'r *contract consesiwn a ddyfarnwyd*, y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Fair Access by Design*[5] (cyhoeddiad Saesneg yn unig).

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn y *Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU* a'r *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd drechaf.

Mae'r rhesymeg sy'n ofynnol yn y ddogfen hon yn ychwanegol at y rhesymeg sy'n ofynnol yn y *Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU*.

Bydd y cymhwyster hwn ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2019, a'r cyfle cyntaf i'w achredu'n llawn fydd yn ystod haf 2021.

---

[2] http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf
[3] http://qualificationswales.org/media/1915/gcse-welsh.pdf
[4] http://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/
[5] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant roi'r dewis i ddysgwyr o astudio ar gyfer naill ai gymhwyster gradd unigol neu gymhwyster dwyradd.

2. Dylai un o'r canlynol ymddangos ar dystysgrifau fel teitl y cymhwyster, gan ddibynnu ar ba gymhwyster, gradd unigol neu ddwyradd, yr astudiwyd ar eu cyfer:

    2.1. TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

    neu

    2.2. TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Dwyradd)

Nodau ac amcanion y pwnc

3. Rhaid i fanyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

    3.1. datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau at faterion cyfoes mewn amrywiaeth o gyd-destunau ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant;

    3.2. mynd ati i astudio iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant er mwyn datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol â meddyliau ymholgar;

    3.3. gwerthfawrogi amrywiaeth o safbwyntiau ar yr effaith y mae gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn ei chael ar y gymdeithas ehangach;

    3.4. ystyried sut y dylai ymarfer iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant fod yn foesegol a chefnogi system iechyd a gofal gynaliadwy;

    3.5. datblygu a chymhwyso sgiliau sy'n berthnasol i faes iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant gan gynnwys defnyddio a dehongli data;

    3.6. datblygu ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa sydd ar gael ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.

Cynnwys y pwnc

4. Rhaid i gynnwys manyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

5. Rhaid i fanyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (gradd unigol neu ddwyradd) ofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth am y meysydd pwnc canlynol, a dealltwriaeth ohonynt:

5.1. Twf, datblygiad a lles dynol

Rhaid i fanyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ofyn i ddysgwyr astudio twf, datblygiad a lles yr unigolyn drwy gydol ei fywyd, gan gynnwys y canlynol:

5.1.1. datblygiad dynol drwy gydol y cylch oes;

5.1.2. cerrig milltir datblygiadol rhwng 0 a 19 oed a sut mae plant yn dysgu;

5.1.3. cyd-ddibyniaeth rhwng iechyd corfforol da ac iechyd meddwl da;

5.1.4. iechyd cymdeithasol, emosiynol a deallusol gan gynnwys meddylfryd twf, ymwybyddiaeth ofalgar a gwydnwch;

5.1.5. pwysigrwydd cyfranogiad gweithredol i ddatblygiad a lles;

5.1.6. ymyrryd ac atal yn gynnar er mwyn hyrwyddo a chefnogi twf, datblygiad a lles.

5.2. Hyrwyddo a chynnal iechyd a lles

Rhaid i fanyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ofyn i ddysgwyr astudio'r gwaith o hybu a chynnal iechyd a lles, gan gynnwys y canlynol:

5.2.1. fframweithiau deddfwriaethol cenedlaethol sy'n hybu ac yn cefnogi iechyd a lles;

5.2.2. yr amrywiaeth o wasanaethau a'r mathau o ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn hybu a chynnal iechyd a lles drwy gydol y cylch oes;

5.2.3. hybu iechyd cyhoeddus ac iechyd drwy gydol y cylch oes;

5.2.4. dylanwadau ar iechyd a lles da drwy gydol y cylch oes;

5.2.5. risgiau i iechyd a lles.

6. Rhaid i fanyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (dwyradd) ofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth am y meysydd pwnc canlynol, a dealltwriaeth ohonynt:

6.1. **Iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn yr 21ain ganrif**

Rhaid i fanyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ofyn i ddysgwyr astudio iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn yr 21ain ganrif, gan gynnwys y canlynol:

6.1.1. cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymru;

6.1.2. diogelu;

6.1.3. materion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol;

6.1.4. cefnogi system iechyd a gofal gynaliadwy;

6.1.5. iechyd, datblygiad a lles cyfannol gan gynnwys ymyrryd ac atal yn gynnar a gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person/plentyn;

6.1.6. pwysigrwydd gwasanaethau dan arweiniad dinasyddion, cyd-gynhyrchu a lleisio barn ar iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn y 21ain ganrif a'u rheoli.

6.2. **Hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles i sicrhau canlyniadau cadarnhaol**

Rhaid i fanyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ofyn i ddysgwyr astudio'r gwaith o hybu a chefnogi iechyd a lles i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys y canlynol:

6.2.1. sut mae iechyd cyhoeddus, gofal cymdeithasol, gofal plant a'r gwasanaeth iechyd wedi gwella iechyd a lles y genedl;

6.2.2. sut y gall mathau o ofal ddiwallu anghenion unigolion a'u cefnogi i sicrhau canlyniadau cadarnhaol;

6.2.3. effaith iechyd, gofal cymdeithasol neu ofal plant ar y gymdeithas ehangach;

6.2.4. cefnogi hunaniaeth, hunan-barch, ymdeimlad o fod yn ddiogel a gwydnwch drwy gydol y cylch oes;

6.2.5. manteision ymgysylltu mewn gweithgareddau ystyrlon a chreadigol.

Rhesymeg Ofynnol: *ar ôl cyflwyno'r fanyleb TGAU, bydd angen i'r corff dyfarnu esbonio hyd a lled y cynnwys a asesir ym mhob uned.*

Sgiliau

7. Rhaid i fanyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ofyn i ddysgwyr ddangos y gallu i wneud y canlynol:

   7.1. cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth yn briodol yn ôl y gynulleidfa;

   7.2. ystyried a gwerthuso'r dulliau o ddarparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant a sut maent yn effeithio ar iechyd a lles;

   7.3. ymchwilio i wybodaeth a'i chyflwyno mewn ffordd systematig gan ddefnyddio'r derminoleg briodol.

Rhesymeg Ofynnol: ar ôl cyflwyno'r fanyleb TGAU, bydd angen i'r corff dyfarnu esbonio sut y bydd cynnwys y pwnc yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ym mharagraff 7.

Amcanion asesu

8. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y fanyleb dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoliadau a nodir:

Amcan	**Gofynion**	**Pwysoliad**
AA1	Dangos gwybodaeth am gysyniadau, gwerthoedd a materion datblygu ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, a dealltwriaeth ohonynt.	O leiaf 30%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth am gysyniadau, gwerthoedd a materion datblygu ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, a dealltwriaeth ohonynt, mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol.	O leiaf 40%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso cysyniadau, gwerthoedd a materion ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, gan lunio barn resymedig a dod i gasgliadau.	O leiaf 25%

Cynllun asesu

9. Rhaid i fanyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant gydbwyso amcanion asesu rhwng yr asesiadau gwahanol yn y cymhwyster.

10. Bydd 40% o TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn cael ei asesu drwy arholiad(au).
11. Nid cyfres arholiadau'r haf yw'r unig amser y gellir asesu drwy arholiad(au).
12. Bydd 60% o bwysoliad asesu manyleb TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant wedi'i ddyrannu i asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau.
13. Rhaid i asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau gael eu cynllunio a'u gosod fel y cânt eu cwblhau dan amodau a bennir gan y sefydliad dyfarnu, gan gynnwys, yn benodol, amodau sy'n sicrhau y gall y dystiolaeth a gynhyrchir gan bob dysgwr gael ei dilysu.
14. Ni ddylai TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant fod yn haenog.
15. Rhaid i TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant fod yn unedol.

Rhesymeg Ofynnol: ar ôl cyflwyno'r fanyleb TGAU, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio:

- *sut y gellir sicrhau y bydd asesiad nas cynhelir drwy arholiad yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn hawdd ei reoli;*
- *unrhyw benderfyniad i gynnig asesiad drwy arholiad(au) mewn unrhyw gyfres arholi arall ar wahân i gyfres yr haf;*
- *y ffordd y caiff gradd unigol neu ddwyradd ei dyfarnu.*

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR
ymholiadau@cymwysteraucymru.org